

Brexit a'n Tir
Is-adran Diwygio Rheoli Tir
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

24 Hydref 2018

Annwyl Gyfaill,

Brexit a'n tir: Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru

Diolch ichi am y cyfle i ymateb i'ch ymchwiliad. Hoffwn bwysleisio'r pwyntiau canlynol.

- Croesawaf y sylw a roddir i'r Gymraeg yn y cynigion. Cefnogaf gydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru bod y sector amaeth yn gwneud cyfraniad cymdeithasol a diwylliannol pwysig, gan gynnwys trwy gyfrannu at gynnal cymunedau Gymraeg eu hiaith.
- Yng nghyd-destun y gydnabyddiaeth hon, credaf y dylid dynodi'r Gymraeg fel 'nwydd cyhoeddus' o fewn y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig. Byddai hyn yn gyson â gweledigaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Strategaeth Gymraeg 2050.
- Unwaith y bydd y Gymraeg yn cael ei chydabod fel nwydd cyhoeddus o fewn y cynllun arfaethedig byddwn yn croesawu cyfle i gyfrannu at drafodaeth am ddatblygu mesurau priodol i werthuso effaith ymyriadau a ariennir ar y Gymraeg.
- Yn ogystal, gall y Gymraeg hefyd gefnogi hyfywedd y sector amaeth. Er enghraifft, gellir ei defnyddio fel arf marchnata unigryw, a thrwy hynny gynyddu potensial y farchnad. O'r herwydd, dadleuf y dylai'r Gymraeg hefyd dderbyn cydnabyddiaeth ddiamwys o fewn y Cynllun Cadernid Economaidd arfaethedig.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT


0845 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

- Bydd tanlinellu perthnasedd y Gymraeg i'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus a'r Cynllun Cadernid Economaidd yn sicrhau lle canolog a diamwys i'r Gymraeg yn y polisi newydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried mai prin dros y blynyddoedd diwethaf yw'r ymyriadau o dan y rhaglenni cymorth Ewropeaidd sy'n targedu siaradwyr y Gymraeg yn rhagweithiol, ac sydd wedi'u teilwra ar gyfer eu hanghenion hwy.

1. Cyd-destun yr ymateb hwn

Prif nod y Comisiynydd wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hynny bydd y Comisiynydd yn ceisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau, a thrwy gyfleoedd eraill. Yn ogystal, bydd yn rhoi sylw i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau rhoddir dyletswyddau statudol ar sefydliadau i ddefnyddio'r Gymraeg. Un o amcanion strategol y Comisiynydd yn ogystal yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi a dyna a wneir yma mewn perthynas â chylch gorchwyl yr ymchwiliad. Ceir rhagor o wybodaeth am waith y Comisiynydd ar y wefan www.comisiynyddygyymraeg.cymru.

2. Sylwadau agoriadol

Tanlinellais eisoes mewn manau eraill y gallasai Brexit fod â goblygiadau deublyg i siaradwyr y Gymraeg a'r economi leol a hynny oherwydd newidiadau posibl i'r gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i ffermwyr, cefn gwlad a chymunedau gwledig trwy raglenni'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC).¹


Croesawaf felly y sylw a roddir i'r Gymraeg yn y cynigion presennol. Cefnogaf y gydnabyddiaeth fod rhaid diogelu'r Gymraeg fel rhan annatod o ffabrig cymdeithasol o Gymru wledig; a bod gan amaethyddiaeth rôl bwysig wrth gynnal y Gymraeg.

Ar yr un pryd, nid yw'r cynigion presennol yn cynnwys dulliau penodol o gynnal a chynyddu dylanwad y sector amaeth yn y cyd-destun hwn. Credaf felly ei bod hi'n hanfodol fod y Gymraeg wrth galon y ddwy ran y polisi newydd – y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus a'r Cynllun Cadernid Economaidd.

3. Y Gymraeg fel 'nwydd cyhoeddus'

Credaf y dylid dynodi'r Gymraeg fel 'nwydd cyhoeddus' o fewn y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig.

¹ Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol [Gwydnwch a pharodwyt: ymateb gweinyddol ac ariannol Llywodraeth Cymru i Brexit](#) (Tachwedd 2017); Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i'r [paratodau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru pan fydd y DU yn gadael yr UE](#) (Mai 2018); Ymgynghoriad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig [Fframweithiau cyffredin y DU ar amaethyddiaeth a'r amgylchedd](#) (Mai 2018)



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Yn ôl y ddogfen ymgynghori, diben y cynllun yw 'rhoi cymorth i gyflawni canlyniadau nad oes marchnad weithredol ar eu cyfer' er mwyn, ymysg eraill, gynnal a gwella'r cyfalaf amgylcheddol a chymdeithasol yn ein hardaloedd gwledig. Ymysg y nwyddau cyhoeddus posibl, rhestrir materion megis lleihau perygl llifogydd; ansawdd yr aer; ansawdd dŵr; diogelu pridd; a threftadaeth a hamdden; ac addysg ac iechyd.


O ystyried diben y cynllun a'r mathau o nwyddau sydd wedi'u nodi uchod, credaf y dylid fel mater o egwyddor ac er mwyn sicrhau llwyddiant y polisi arfaethedig ddynodi'r Gymraeg fel nwydd cyhoeddus.

Nid yw'r cysyniad o ieithoedd llai fel nwyddau cyhoeddus yn un dadleuol. Dyma'r egwyddor sydd wrth wraidd mesurau cynllunio ieithyddol ar draws y byd, er enghraifft deddfwriaeth iaith yng Nghanada. Ar un llaw, dadleuir bod ieithoedd llai o fudd i les cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ac i iechyd eu defnyddwyr. Ar y llaw arall, nid gwerth mesuradwy'n unig sydd i'r ieithoedd hyn – mae gwerth cynhenid iddynt hefyd. Oherwydd eu bod nhw'n perthyn i bawb ond ar yr un pryd mewn sefyllfa fwy bregus na'r ieithoedd mwyafrifol, mae'n briodol bod mesurau pwrpasol yn cael eu gosod i'w diogelu a'u hatgyfnerthu.²

Yng Nghymru, cydnabyddir yn eang erbyn hyn mai ein trysor cenedlaethol yw'r Gymraeg gyda Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cadarnhau ei statws swyddogol. Yn ôl canlyniadau diweddaraf [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#), mae 86 y cant o bobl yn teimlo bod y Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cadarnhau bod y Gymraeg yn ganolog i les y genedl – ochr yn ochr a'r amgylchedd, iechyd, economi, addysg ac eraill. Dyma hefyd weledigaeth Strategaeth Cymraeg 2050. Cydnabyddir yn y Strategaeth fod cysylltiad rhwng y Gymraeg a'r economi sy'n arbennig o bwysig yn y cymunedau gwledig hynny sy'n dibynnu i raddau helaeth ar amaethyddiaeth a thwristiaeth. Ond awgrymir hefyd nad yw twf economaidd cyffredinol ynddo'i hun yn ddigonol i gynnal ac atgyfnerthu'r Gymraeg – mae'n rhaid i 'gynllunio ieithyddol a datblygu economaidd fynd law yn llaw'.

Yng nghyd-destun y dadleuon uchod nid oes unrhyw reswm dros beidio â dynodi'r Gymraeg fel nwydd cyhoeddus o dan y polisi arfaethedig, yn debyg i dreftadaeth, addysg ac iechyd. Yn wir, byddai peidio â gwneud yn mynd yn groes i weledigaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, y Ddeddf Llesiant 2015 a Strategaeth Cymraeg 2050.

² Mae'r cysyniad hefyd yn sylfaen i waith ysgolhaig Americanaidd Alan Patten: '[Protecting Vulnerable Languages: The Public Good Argument](#)'; hefyd, '[The Justification of Minority Language Rights](#)'



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Unwaith y bydd y Gymraeg yn cael ei chydabod fel nwydd cyhoeddus o fewn y cynllun arfaethedig byddwn yn croesawu cyfle i gyfrannu at drafodaeth am ddatblygu mesurau priodol i werthuso effaith ymyriadau a ariennir ar y Gymraeg.

4. Y Gymraeg fel arf marchnata

Credaf hefyd fod dadl gref o blaid cydnabod yn glir ac o'r cychwyn cyntaf berthnasedd y Gymraeg i nodau ail ran y polisi arfaethedig, sef y Cynllun Cadernid Economaidd.

Cyflwynais eisoes mewn manau eraill amlinelliad o'r dystiolaeth dros effaith y Gymraeg ar yr economi. Ni fwriadaf ailadrodd y dadleuon hyn fan hyn yn eu cyfanwydd, ond fe'ch anogaf i ystyried fy ymateb llawn i [ymgyngoriad gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sqiliau i Werthu Cymru i'r Byd](#).

Yn gryno, ceir cydnabyddiaeth gyffredinol fod y Gymraeg yn gallu cynorthwyo twf busnesau a datblygu cynnyrch arloesol.³ Yn benodol, ceir tystiolaeth helaeth erbyn hyn am werth y Gymraeg at ddibenion hyrwyddo, brandio a marchnata yn y sector gweithgynhyrchu a marchnata bwyd a diod. Canfu ymchwil Comisiynydd y Gymraeg yn 2014, bod defnyddio'r Gymraeg yn gwneud i'r cynnyrch sefyll allan; yn atgyfnerthu delwedd brand; yn cynnig cyfleoedd i werthu mewn marchnadoedd newydd; ac yn cael ei gweld fel arwydd o ansawdd.⁴ Yn ôl ymchwil diweddarach i agweddau busnesau mawr, bach a chanolig yng Nghymru yn 2018 mae 82 y cant yn cytuno'n gryf neu i raddau fod defnydd o'r Gymraeg yn ychwanegu gwerth ar gynnyrch neu wasanaeth; ac mae 84 y cant yn cytuno'n gryf neu i raddau fod defnydd o'r Gymraeg o fudd i frand y busnes.⁵ Ategir y casgliadau hyn hefyd gan ganfyddiadau gwaith ymchwil Llywodraeth Cymru.⁶ Ceir tystiolaeth dros gysylltiad yr economi ag ieithoedd llai eraill hefyd, megis y Ffriwleg yng Ngogledd-Ddwyrain yr Eidal;⁷ Gaeleg yr Alban;⁸ a'r Fasgeg.⁹

Mae sectorau eraill, megis y sector twristiaeth, hefyd yn gallu elwa o'r Gymraeg yn yr un modd.¹⁰ Mae hyn yn enwedig o berthnasol o ystyried bod y cynigion yn y polisi dan sylw yn cwmpasu ffermwyr ond hefyd 'rheolwr tir' yn eangach yn ogystal. Fel y dywedir yn y cynigion,

³ Arsyllfa Arloesedd, *Elwa economaidd ar laith a Diwylliant: Astudiaeth Hyd a Lled: laith – Diwylliant – Economi. Adroddiad ar gyfer Menter a Busnes* (Mehefin 2005); *Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr laith Gymraeg a Datblygu Economaidd i Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth* (Ionawr 2014), t. 3.

⁴ Comisiynydd y Gymraeg, *Gwerth y Gymraeg i'r sector bwyd a diod yng Nghymru - Adroddiad ymchwil* (Rhagfyr 2014)

⁵ [Ymchwil newydd yn dangos bod busnesau'n gweld budd defnyddio'r Gymraeg](#), (9 Awst 2018); adroddiad llawn ar fin ei gyhoeddi

⁶ Bwyd a Diod Cymru, *Gwerth Cymreictod: awydd y siopwr am gynnyrch Cymreig* (2017).

⁷ Sillani (2006) ar ôl Robert Michael Lewis, MA (Cantab), MSc, PhD, *Darpariaeth Gymraeg a Dwyieithog yn y Sector Twristiaeth yng Nghymru*, MRes Dwyieithrwydd ac Amlieithrwydd yn Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Dwyieithrwydd, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Mawrth 2016), t. 10

⁸ Highlands and Islands Enterprise (HIE), *Ar Stòras Gàidhlig - The economic and social value of Gaelic as an asset- Executive summary* (Mai 2014)

⁹ Basque Government, *The Value and Economic Impact of Basque – summary of results* (2015)

¹⁰ Robert Michael Lewis, MA (Cantab), MSc, PhD, *Darpariaeth Gymraeg a Dwyieithog yn y Sector Twristiaeth yng Nghymru*, MRes Dwyieithrwydd ac Amlieithrwydd yn Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Dwyieithrwydd, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Mawrth 2016), t. 86.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

'y dirwedd a'r amwynderau a gynhyrchir gan reolwyr tir yw sylfaen rhan enfawr o sector twristiaeth ffyniannus Cymru'.

O ystyried yr uchod, dadleuaf y dylid cydnabod yn ddiamwys berthnasedd y Gymraeg i nodau'r Cynllun Cadernid Economaidd arfaethedig, yn enwedig o ran cefnogi cynyddu potensial y farchnad.

5. Sylwadau i gloi

Byddai tanlinellu perthnasedd y Gymraeg i'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus a'r Cynllun Cadernid Economaidd yn sicrhau lle canolog a diamwys i'r Gymraeg yn y polisi newydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried mai prin fu'r ymyriadau dros y blynyddoedd diwethaf o dan y rhaglenni cymorth Ewropeaidd sy'n targedu siaradwyr y Gymraeg yn rhagweithiol, ac sydd wedi'u teilwra ar gyfer eu hanghenion hwy. Dyma oedd un o gasgliadau gwerthusiad o'r RDP yn 2014.¹¹ Mynegodd eraill, gan gynnwys y Comisiynydd, farn debyg.¹² Er hyn, hyd y gwn, dim ond llond dwrn o'r prosiectau a dderbyniodd gymorth Ewropeaidd dros y blynyddoedd diwethaf oedd â'r Gymraeg wrth galon y prosiectau. Yn eu mysg, dim ond un a lwyddodd i fanteisio ar Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, sef prosiect 'Marchnad Lafur Cymraeg' gan Four Cymru mewn partneriaeth â Mentrau Iaith Cymru.¹³

Casgliad

Hyderaf y bydd y sylwadau uchod o ddefnydd i chi. Byddai fy swyddogion yn croesawu'r cyfle i gyfarfod â chi er mwyn trafod fy sylwadau a'ch camau nesaf. Gofynnaf ichi gysylltu â Lowri Williams, Uwch Swyddog Polisi (lowri.williams@cyg-wlc.cymru) os dymunwch gyfarfod.

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg

CC – Uned Iaith Gymraeg, Llywodraeth Cymru

¹¹ <http://gov.wales/docs/drah/publications/141114-rural-development-programme-environment-impact-assessment-sept-report-en.pdf>

¹² Comisiynydd y Gymraeg, Potensial y Gymraeg i gyfrannu at wireddu amcanion Rhaglenni Ariannu Ewropeaidd 2014-2020; Mentrau Iaith Cymru, Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg; [Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd](#) (Ionawr 2014);

¹³ Nod y prosiect hwn yw 'datblygu'r Gymraeg fel catalydd economaidd fyddai'n gyfrwng i ddatblygu ac adfywio y Gymru Wledig'. <http://four.cymru/wordpress/wp-content/uploads/2017/09/Marchnad-Lafur-Cymraeg.pdf>